**CYFARFOD:** **BWRDD PENSIWN**

**DYDDIAD:** **14 HYDREF 2024**

**TEITL:** **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU**

**AWDUR:** **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn hyn, mae 85% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC/WPP).

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn gymysg mewn amgylchiadau heriol iawn, ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly mae'r adroddiad yma'n diweddaru'r Bwrdd.

## 2. Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae'r tabl isod yn nodi gwerth pob is-gronfa a'u perfformiad hyd at 30 Mehefin 2024:

| | Gwerth 30/06/24 | Dychweliad 3 Mis | Meincnod 3 Mis | Dychweliad 1 Blwyddyn | Meincnod 1 Blwyddyn | Dychweliad Ers Cychwyn | Meincnod Ers Cychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % | % | % | % | % | % |
| WPP Global Growth | 412.9 | -0.6 | 2.8 | 13.2 | 20.1 | 10.1 | 12.2 |
| WPP Global Opportunities | 441.1 | 1.5 | 2.8 | 18.3 | 20.1 | 12.6 | 12.2 |
| WPP Emerging Markets | 62.0 | 3.5 | 5.3 | 10.2 | 14.9 | -1.7 | 0.7 |
| WPP Sustainable Equity | 319.6 | 0.8 | 2.8 | 14.1 | 20.1 | 15.5 | 21.9 |
| WPP Multi Asset Credit | 228.9 | 1.3 | 2.3 | 9.2 | 9.6 | 2.3 | 6.3 |
| WPP Absolute Return Bond | 223.1 | 2.1 | 1.8 | 8.4 | 7.5 | 3.6 | 4.4 |
| WPP Global Credit | 431.9 | 0.1 | 0.1 | 5.5 | 5.2 | -2.3 | -2.1 |

Mae perfformiad pob is-gronfa yn cael ei fonitro gan y PPC yn ogystal â'n ymgynghorwyr yn barhaus, a cyflwynir unrhyw bryderon i'r rheolwr buddsoddi (Russell Investments). Mae Russell Investments yn asesu'r rheolwyr o fewn eu portffolio yn barhaus a byddant yn lleihau, yn cynyddu neu'n dileu eu daliadau i geisio gwella perfformiad tymor hir yr is-gronfa. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei wneud o fewn yr is-gronfa Global Growth gyda newid yn y rheolwyr o fewn y portffolio.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd wedi dechrau buddsoddi yng nghronfeydd marchnadoedd preifat newydd PPC, a reolir gan y rheolwyr buddsoddi canlynol:

**Dyled Preifat:** Russell Investments

**Isadeiledd caeedig:** GCM Grosvenor

**Isadeiledd pen agored:** CBRE Global Infrastructure Fund, IFM Global Infrastructure Fund a Octopus Renewables Infrastructure SCSp.

**Ecwiti Preifat:** Schroders

Bydd y buddsoddiadau yn cynyddu pob chwarter wrth i gyfalaf cael ei alw, a bydd adroddiad ar eu cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd maes o law.

## 3. Datblygiadau

### 3.1 Eiddo

Bydd y PPC yn sefydlu portffolio buddsoddi eiddo. Y gofyn ar gyfer pob rheolwr eiddo yw:

*UK Core Real Estate*, cymryd buddsoddiadau presennol y cronfeydd a'u trosglwyddo dros amser i bortffolio buddsoddi eiddo uniongyrchol.

*International Real Estate*, sefydlu buddsoddiadau pen agored sy'n buddsoddi mewn cronfeydd ac asedau uniongyrchol byd-eang.

*Local / Impact Real Estate*, datblygu rhaglen fuddsoddi sy'n defnyddio buddsoddiadau cronfeydd a buddsoddiadau uniongyrchol mewn strategaethau sydd yn gwneud gwahaniaeth yn y Deyrnas Unedig, gydag o leiaf 50% o asedau wedi'u lleoli yng Nghymru.

Ar ôl cwblhau proses gaffael gyhoeddus drwyadl, gyda chefnogaeth bfinance a Hymans Robertson, penodwyd Rheolwyr Buddsoddi Eiddo ar gyfer y bartneriaeth. Y rheolwyr a benodwyd ydi:

- *'UK Core Real Estate'* – Schroders
- *'International Real Estate'* – CBRE
- *'Impact / Local Real Estate'* – Schroders

Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd maes o law yn ystyried ein portffolio eiddo er mwyn manteisio ar yr opsiynau hyn.

### 3.2 Galwad am dystiolaeth

Ym mis Medi 2024, mae'r Canghellor wedi lawnsio adolygiad pensiynau nodedig i hybu buddsoddiad, cynyddu enillion cynilo a mynd i'r afael â gwastraff yn y system bensiynau. Mae'r Canghellor wedi penodi'r Gweinidog Pensiynau i arwain yr adolygiad. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar gynlluniau buddion diffinedig a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Fel y camau cychwynnol, bydd yr adolygiad yn ystyried tystiolaeth ar ystod o gwestiynau sydd i'w gweld yma: [Pensions Investment Review: Call for Evidence - GOV.UK (www.gov.uk)] Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd, Partneriaeth Pensiwn Cymru a nifer o randdeiliaid allweddol y Gronfa wedi ymateb i'r cam cychwynnol hwn. Gellir dod o hyd i'r ymateb gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1.

## 4. Cyfarfod Ymgysylltu Cadeiryddion Byrddau Pensiwn - 8 Hydref 2024

Mae Sioned Parry ac Osian Richards (fel Aelod Cynrychiolydd y JGC) wedi mynychu'r cyfarfod hwn yn ddiweddar a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd.

## 5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.